**Lesley Griffiths AS/MS**
**Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd**
**Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: LG/3813/22

Huw Irranca Davies AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru
Huw.irranca-davies@senedd.cymru

11 Rhagfyr 2022

Annwyl Huw,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 7 Rhagfyr, ynglŷn â Rheoliadau Cynhyrchu Organig (Diwygio) (Rhif 2) 2022.

Fel y sylwch, dewisais gydsynio i reoliadau Prydain Fawr i ymestyn rhanddirymiadau ar gyfer defnyddio gwm gellan anorganig, cywennau a bwyd protein yng nghynhyrchiad organig. Er mwyn egluro, ein safbwynt cychwyn yw dylai pwerau deddfu ym meysydd datganoledig gael eu harfer gan Gweinidogion Cymru mewn perthynas â Chymru, yn hytrach na Llywodraeth y DU.

Er y gallai'r OS hwn fod wedi cael ei ddatblygu mewn deddfwriaeth Gymreig, yn ystod yr ychydig fisoedd diwethaf mae gwaith ar feysydd eraill wedi cael blaenoriaeth. Byddai dyddiad dod i rym ar gyfer y rheoliadau hyn wedi bod ymhellach yn y dyfodol pe baen nhw wedi eu drafftio yng Nghymru, oherwydd yr angen i ddileu unrhyw anghysondebau wrth ddrafftio rhwng y cenhedloedd a chyfieithu'r drafft yng Nghymru. Fy marn i oedd y gellid defnyddio adnoddau ar faterion deddfwriaethol dybryd eraill lle digwyddodd ymwahanu polisi, sy'n golygu efallai na fu'r OS hwn yn barod cyn i'r rhanddirymiadau blaenorol ddod i ben. Byddai hyn wedi golygu bod rheoliadau gwahanol ar waith yng Nghymru a Lloegr, a fyddai wedi achosi problemau trawsffiniol, gan fod DEFRA yn gweithredu fel yr Awdurdod Cymwys ar gyfer organig ar ran Gweinidogion Cymru.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Roedd gweithredu'r Fframwaith Cyffredin Dros Dro ar Gynhyrchu Organig yn ffactor a ddylanwadodd ar fy mhenderfyniad i ddarparu caniatâd, gan fod DEFRA wedi dilyn y prosesau a gytunwyd ynddo i hysbysu Llywodraeth Cymru o'u cynlluniau yn iawn a thrafod priodoldeb OS Prydain Fawr.

Cafodd yr OS drafft ei adolygu gan fy swyddogion polisi a chyfreithiol cyn i argymhelliad i gydsynio gael ei roi, er mwyn asesu pa lefel o effaith y byddai'n ei gael. Gofynnon nhw am fân welliannau i'r Memorandwm Esboniadol a ddrafftiwyd gan DEFRA i adlewyrchu sefyllfa Llywodraeth Cymru wrth roi cydsyniad i'r OS hwn. Cyfrannodd hyn at yr amser cynyddol a gymerodd i'ch hysbysu am fy nghaniatâd gan fy mod yn dymuno bod yn sicr bod y newidiadau y gofynnwyd amdanynt wedi'u gwneud . Wrth i'r OS hwn wneud newidiadau a oedd ond yn fân a thechnegol eu natur, ac nid oedd unrhyw ddiddordebau polisi datganoledig sylweddol mewn perygl, roeddwn yn fodlon rhoi fy nghaniatâd iddo gael ei wneud ar sail Prydain Fawr gyfan, yn unol â'r sefyllfa y cytunwyd arni a nodwyd gan y Cabinet ar gyfer defnyddio offerynnau statudol Senedd y DU yn gwneud darpariaeth mewn maes datganoledig.

Yr eiddoch yn gywir,



**Lesley Griffiths AS/MS**
**Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a’r Trefnydd**
**Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd**